**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Owen Evans
Prif Arolygydd EM, Estyn

03 Ebrill 2025

**Cwestiynau yn dilyn y sesiwn graffu flynyddol**

Annwyl Owen

Diolch i chi a'ch cydweithwyr am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 5 Mawrth. Roeddem yn ddiolchgar am eich amser mewn perthynas â'r sesiwn graffu flynyddol a'r sesiwn casglu tystiolaeth ar gyfer ein hymchwiliad 'llwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16'.

Yn ystod y sesiwn graffu flynyddol fe wnaethoch gytuno i ddarparu nodyn ynghylch y niferoedd diweddaraf o ysgolion sydd mewn gweithgarwch dilynol, y ddau gategori statudol sy'n gofyn am welliant sylweddol ac mewn mesurau arbennig, a rhai nodweddion am yr ysgolion (gan gynnwys ym mha ranbarthau o Gymru y maent wedi'u crynhoi ynddynt, ac unrhyw ddemograffeg berthnasol o ran y disgyblion).

Yn ystod yr ail seiwn cytunodd eich cydweithwyr i ddarparu rhagor o wybodaeth am y cymorth a ddarperir pan ddaw yr oedran ysgol gorfodol i ben gan gynnwys enghreifftiau o ble mae problemau penodol ond hefyd lle ceir enghreifftiau penodol o'r hyn sy'n gweithio'n dda.

Nid oedd gennym amser i ofyn ein holl gwestiynau arfaethedig i chi yn ystod y sesiwn graffu flynyddol. Mae gennym hefyd rai cwestiynau pellach yr hoffem eu gofyn i chi o ganlyniad i'n trafodaethau preifat. Gan hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau a ganlyn yn ysgrifenedig:

## Diwygio'r cwricwlwm ac ADY

1. Ers nifer o flynyddoedd bellach, mae datblygu cyd-ddealltwriaeth o ddilyniant wedi cael ei amlygu gan Estyn, a'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru, fel maes anhawster wrth roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Pam mae hyn yn dal yn wir, o ystyried yr arweiniad a'r

cyfarwyddyd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a yw pethau'n mynd i'r cyfeiriad cywir ai peidio?

2. Rydych chi'n dweud yn eich rhagair fod ysgolion wedi gwneud cynnydd da o ran rhoi'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd ar waith a chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Estyn hefyd wedi dweud bod gweithredu'n anghyson ac nad yw disgyblion ag ADY bob amser yn cael eu cynorthwyo'n ddigon da? A allwch chi roi asesiad gonest i ni, wrth bwyso a mesur, a yw anghenion disgyblion ag ADY yn cael eu nodi a'u diwallu?

## Addysg a hyfforddiant ôl-16

3. Mae eich adroddiad yn nodi bod cyfran y dysgwyr mewn colegau addysg bellach a enillodd raddau uwch mewn rhaglenni galwedigaethol a rhaglenni Safon Uwch yn rhy isel. Beth yw'r rheswm dros hynny, a beth sydd angen ei wneud - a chan bwy - i fynd i'r afael â'r mater hwn?

4. Mae mater cyfraddau cwblhau prentisiaethau wedi codi yn adroddiad eleni, yn yr un modd â'r llynedd, gyda phryderon am y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn arbennig yn cael eu codi y ddwy flynedd. Pa welliannau, os o gwbl, ydych chi wedi eu gweld eleni ers y llynedd? Pa ffactorau ydych chi'n meddwl sy'n achosi'r broblem hon a phwy sydd angen bod yn gwneud beth i fynd i'r afael â hyn?

5. Mae eich adroddiad yn nodi'r heriau mae darparwyr prentisiaethau wedi eu hwynebu oherwydd toriadau cyllid, ac yn nodi bod hyn wedi achosi gostyngiad yn nifer y prentisiaid. Pa mor amlwg y daeth hyn i'r wyneb yn ystod eich arolygiadau a pha gamau mae'n rhaid i ddarparwyr eu cymryd i fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn cyllid?

## Arall

6. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth fe wnaethoch chi siarad am yr hyn y mae'r system ysgolion yn ei wneud yn dda, a lle mae angen gwella. Wrth fyfyrio, beth ydych chi'n credu yw'r tair blaenoriaeth bwysicaf i'r system ysgolion yn ei chyfanrwydd ar hyn o bryd?

7. Dywedasoch wrthym yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 5 Mawrth fod gan Lywodraeth Cymru rôl wrth sicrhau bod arweinwyr ysgolion yn cael eu dal i gyfrif am ba mor dda y maent yn rhannu arfer da. Ydych chi hefyd yn credu bod gan awdurdodau lleol gyfrifoldeb yn y maes hwn hefyd, ac, os felly, sut y gellir eu dal i gyfrif am hynny, a chan bwy?

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir,

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Buffy Williams AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.